



ADRODDIADAU ARHOLWYR TGAU

**TGAU (NEWYDD)
BWYD A MAETH**

HAF 2018

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?!=cy>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys deilliannau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

| Uned | Tudalen |
|-------------|----------------|
| Uned 1 | 1 |
| Uned 2 | 4 |

BWYD A MAETH

TGAU (NEWYDD)

Haf 2018

UNED 1 EGWYDDORION BWYD A MAETH

Cyflwyniad

Hwn oedd y cyfle cyntaf i ganolfannau gofrestru'r cymhwyster newydd hwn. Mae wedi bod yn galonogol gweld cynifer o ganolfannau'n cynnig y fanyleb hon a gobeithio y bydd y nifer o ymgeiswyr sy'n cael eu cofrestru yn parhau i dyfu. Mae'r canlyniadau a'r gwaith a gyflwynwyd yn dangos bod ymgeiswyr ar draws yr ystod lawn o raddau yn cael eu cofrestru.

1. (a) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu nodi'r dull rhwbio i mewn yn gywir.
 - (b) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu pennu'n gywir swyddogaeth y cynhwysion a ddefnyddir gan ddangos cydberthyniad clir rhwng gwybodaeth ymarferol a chyfiawnhad ysgrifenedig.
 - (c) Llwyddodd llawer o ymgeiswyr i alw i gof gwybodaeth er mwyn nodi'n gywir cynhwysyn a fyddai'n addas ar gyfer sgon felys neu sawrus. Roedd nifer siomedig o ymatebion megis 'jam' fel awgrym o gynhwysyn i ychwanegu at y cymysgedd.
 - (ch) Roedd rhai ymgeiswyr yn amlwg yn gallu galw i gof gwybodaeth o asesiadau ymarferol yn yr ystafell ddosbarth ac yn gallu nodi prosesau'n glir. Mae defnyddio gwybodaeth a gafwyd o wersi ymarferol yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu ar gyfer rhai ymgeiswyr.
 - (d) Cynigiodd y cwestiwn hwn ymatebion amrywiol, gyda'r prif nodweddion yn canolbwyntio ar y newid mewn gwedd a blas. Roedd yn braf darllen rhai ymgeiswyr yn esbonio newidiadau maeth. Mae angen i ymgeiswyr o hyd ymarfer esbonio eu hymatebion yn llawn, yn hytrach na rhestru gydag ychydig neu ddim esboniad.
2. (a) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn.
 - (b) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn.
 - (c) Cynigiodd y cwestiwn hwn ymatebion amrywiol. Cynigiwyd newidiadau i'r rysáit yn hytrach na newidiadau i ostwng cynnwys braster y gacen gaws gan ormod o ymgeiswyr, cyfyngedig felly oedd y marciau oedd yn gallu cael eu dyfarnu.
 - (ch) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn. Nodwyd y cyswllt rhwng y rysáit enghreifftiol ac anoddefedd lactos yn gywir gan ymgeiswyr.
 - (d) Cafwyd ymatebion da gan lawer o ymgeiswyr i'r cwestiwn hwn, gan wneud cysylltiadau clir â phrosesau sy'n cael eu harfer yn y gegin. Roedd ymatebion poblogaidd yn cynnwys gor-chwipio a/neu ddim chwipio ddigon.

3. (a) Roedd llawer o ymgeiswyr yn amlwg yn gallu nodi ffrwyth cywir ond roedd yn siomedig cyn lleied oedd yn gallu nodi'r dosbarthiad cywir.
 - (b) Roedd defnyddio ffrwythau mewn ryseitiau yn amlwg yn destun poblogaidd ar gyfer llawer o ganolfannau ac atebwyd y cwestiwn hwn yn gymharol dda.
 - (c) Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu darparu awgrymiadau i atal yr hyn yr oedden nhw wedi'i nodi'n glir yn rhan (b).
 - (ch) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn gyda llawer o ymgeiswyr yn nodi'n glir ffyrdd diddorol y gellir cynnwys ffrwythau yn y deiet. Braff oedd gweld cynifer o ymgeiswyr yn trafod eu hymatebion yn glir gan nodi barn gytbwys ar yr awgrymiadau.
 - (d) Cafwyd atebion cymharol dda i'r cwestiwn hwn. Roedd yn amlwg bod ymgeiswyr wedi deall y cwestiwn ac yn amlwg yn gallu cysylltu â'r amrywiaeth eang o ffrwythau wedi'u prosesu sydd ar gael bellach. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu gwerthuso eu hawgrymiadau gyda dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ar gyfer rhai o'r awgrymiadau. Er mwyn cyrraedd band 3 y cynllun marcio, gofynnir i ymgeiswyr drafod a gwerthuso'r rhesymau a roddwyd yn glir. Methodd rhai ymgeiswyr gyfleoedd i ymestyn y dadansoddiad ar y cwestiwn hwn.
4. (a) Darparwyd ymatebion amrywiol ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng macrofaetholyn a microfaetholyn. Lle roedd ymgeiswyr wedi sgorio'n isel roedd diffyg gwybodaeth am faetholion yn amlwg.
 - (b) Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu nodi macrofaetholyn a nodi rôl yn gywir. Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebion a oedd yn canolbwyntio ar microfaetholyn neu fath o fwyd yn hytrach nag enw cywir macrofaetholyn. Mae'r rhan hon yn un o rannau sylfaenol y fanyleb a dylai ymgeiswyr allu galw i gof gwybodaeth am faetholion fel y nodwyd yn y fanyleb.
 - (c) Atebwyd y cwestiwn hwn yn wael iawn. Roedd llawer o ymgeiswyr a oedd yn methu â galw i gof gwybodaeth a chymhwyso gwybodaeth am faetholion cyflenwol. Roedd diffyg terminoleg a sgoriodd ymgeiswyr yn wael iawn yn yr adran hon. Mae maeth yn rhan hanfodol o'r fanyleb a rhaid i ganolfannau sicrhau y defnyddir hyn ar gyfer cynllunio er mwyn cynnwys yr holl feini prawf perthnasol. Pan gafwyd ymateb da gan ymgeiswyr, roedd eu sgorio'n uchel gyda gwybodaeth ardderchog am faetholion.
5. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu trafod milltiroedd bwyd a chynaliadwyedd, gan asesu'r effaith ar yr amgylchedd yn glir. Cafwyd casgliad eithaf da i'r pwnc amserol hwn gan ymgeiswyr, gyda llawer o awgrymiadau addas ar gyfer byd mwy ecogyfeillgar. Roedd yn amlwg bod hwn yn destun a drafodwyd mewn llawer o ganolfannau. Cynigion da gan lawer o ymgeiswyr.
6. (a) Roedd ymgeiswyr yn gallu nodi rhesymau dros boblogrwydd cyw iâr fel math o ddofednod yn gywir. Roedd ymatebion poblogaidd yn cynnwys cysylltiadau at faeth, hyblygrwydd a chost.
 - (b) Mae hylendid a diogelwch bwyd yn parhau i fod yn faes o gryfder i lawer o ymgeiswyr. Braff oedd gweld cynifer o ymgeiswyr yn nodi'n glir tymereddau a gweithdrefnau cywir ar gyfer trafod bwydydd risg uchel. Yn pwysleisio'r arferion cywir yn glir. Da fyddai gweld hyn yn parhau.

7. Yn gyffredinol cafwyd cynigion da gan ymgeiswyr i asesu ffyrdd y gallai'r prynwr a'r gwneuthurwr bwyd helpu tuag at genedl ddiwasttraff. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu galw i gof gwybodaeth o brosesu a pheccynnu gydag ymatebion poblogaidd yn cynnwys ailgylchu, aildefnyddio a lleihau'r defnydd o becynnu diangen.
8. Yn gyffredinol cafwyd atebion da iawn i'r cwestiwn hwn gyda llawer o ymgeiswyr yn cynhyrchu ymatebion wedi'u strwythuro'n dda. Roedd ymgeiswyr yn gallu dewis a galw i gof gwybodaeth am fwyta'n iach a nodwyd yn glir y ffyrdd y gallai dewisiadau deiet a ffordd o fyw leihau risgiau o Glefyd Cardiofasgwlar. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu galw i gof arferion bwyta'n iach cadarn a hyd yn oed eu cysylltu â dulliau coginio. Mewn rhai achosion roedd ymgeiswyr wedi'u hyfforddi'n dda i gynllunio'u hymatebion er mwyn cael marciau uwch. Pan sgoriodd ymgeiswyr yn dda, roedd yr ymatebion yn gytbwys ac yn dangos dadansoddi a gwerthuso ardderchog yn gysylltiedig â dewisiadau deiet.

Sylwadau Cyffredinol

- Caiff canolfannau eu hatgoffa bod yr arholiad hwn ar gael ar-lein yn ogystal ag ar bapur. Mae papurau electronig yn hygyrch iawn i bob dysgwr yn enwedig y rheini sy'n cael anhawster â sgiliau ysgrifennu.

Cysylltwch â e-assessment@wjec.co.uk am fwy o wybodaeth.

- Mae mwy o ymgeiswyr yn ceisio ateb yr holl gwestiynau, sy'n galonogol. Mae'n amlwg bod canolfannau yn defnyddio cyn bapurau wrth baratoi at arholiad. Fodd bynnag mae angen i ymatebion gan ymgeiswyr fod yn gryno.
- Braff oedd gweld llawer o ymgeiswyr yn drafftio cynllun i helpu i greu trafodaeth dda ar gyfer y cwestiynau ymateb hwy, yn enwedig cwestiwn 8. Dylid parhau i annog hyn gan ganolfannau gan ei fod yn cryfhau gallu'r ymgeisydd i ganolbwyntio ar y geiriau allweddol.

Canllawiau i ganolfannau

- Dylid parhau i ymgyfarwyddo ymgeiswyr â sesiynau ymarfer techneg arholiad a chanllawiau ar ddehongli geiriau gorchymyn a ddefnyddir mewn cwestiynau.
- Cyfeiriwch at y fanyleb i sicrhau y darperir pob testun yn y cynlluniau dysgu er mwyn i ddysgwyr feithrin mwy o wybodaeth.

BWYD A MAETH

TGAU (NEWYDD)

Haf 2018

UNED 2 – BWYD A MAETH AR WAITH

Gweinyddu

Diolch i'r canolfannau a gyflwynodd eu gwaith cwrs i'r safonwr yn gynnar; mae hyn yn cynorthwyo'r broses safoni'n fawr. Cyflwynwyd gwaith yn bell ar ôl y dyddiad cau gan rai canolfannau – caiff canolfannau eu hatgoffa mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs yw 5 Mai, ac nid yw'r dyddiad hwn yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Dylid cyflwyno marciau ar lein drwy'r system ddiogel mewn da bryd i sicrhau bod y gwaith gyda'r safonwr erbyn 5 Mai.

Dylid cyflwyno portffolios gwaith mewn ffolderi plastig hygyrch A3 neu A4, gydag enwau a rhifau'r ymgeiswyr a rhif y ganolfan wedi'u marcio'n glir fel pennyn neu droedyn ar bob tudalen o waith a gyflwynir. Dylai taflenni clawr Bwyd a Maeth gyd-fynd â gwaith pob ymgeisydd ond nid oes rhaid eu styffylu i'r gwaith. Ar ôl tynnu'r taflenni clawr hyn, rhaid i'r safonwr allu nodi bob darn o waith yn hawdd. Dylech osgoi cyflwyno gwaith mewn pocedi poly.

Rhaid i'r ymgeisydd a'r athro ddilysu taflenni clawr Bwyd a Maeth, ond nid oedd hyn bob amser yn amlwg. Eleni, pwrpas hyn yw datgan bod y gwaith a gyflwynwyd wedi'i gynhyrchu'n annibynnol gan yr ymgeisydd drwy gydol y ddwy dasg. Mae'r anodi gan athrawon ar y taflenni clawr Bwyd a Maeth yn cynorthwyo'r broses safoni'n fawr ac roedd llawer o ganolfannau wedi gwneud hyn; byddem yn annog pob canolfan i ddilyn yr arfer da hwn.

Mae gwallau clerigol wedi bod yn amlwg eleni. Rhaid gwirio marciau ddwywaith i sicrhau eu bod wedi'u cyfansymu yn gywir ar y taflenni clawr ac wedi'u trosglwyddo'n gywir i'r system ddiogel ar ôl hynny. Gallai cyfansymu'r marciau'n anghywir fod wedi gwneud gwahaniaeth yn y radd a ddyfarnwyd i ymgeisydd, felly mae'n hanfodol bwysig bod yr holl farciau yn gywir.

Lluniwyd y cynllun marcio ar gyfer y fanyleb hon i helpu athrawon i farcio'r gwaith cwrs yn gywir. Mae bandiau marcio wedi cael eu torri i lawr fel bod athrawon, gobeithio, yn gallu dewis y marc cywir o'r band hwnnw ar ôl i egwyddor 'ffit orau' gael ei gymhwyso ar gyfer marcio pob adran. Roedd llawer o ganolfannau yn gallu gwneud hyn, ond nid oedd rhai wedi cymhwyso'r cynllun marcio'n gywir ac felly roeddent yn hael gyda'r marciau a ddyfarnwyd ar gyfer rhai adrannau yn y ddwy dasg. Weithiau, mae'r anodi a ddarperir ar y taflenni clawr Bwyd a Maeth yn ddefnyddiol i'r safonwr gan ei fod yn gallu egluro pam y dyfarnwyd marciau penodol.

Mae'n ymddangos y cadwyd at y cyfyngiadau o ran nifer y tudalennau. Dechrau da iawn i'r fanyleb newydd hon.

Asesiad 1 – Dewisodd y rhan fwyaf o ganolfannau'r opsiwn Crwst Brau

Cyflawni ymchwil ac ymchwiliadau

Roedd y mwyafrif o'r gwaith a safonwyd wedi'i gyflwyno'n dda iawn ac yn gryno. Roedd ymgeiswyr yn gallu cynnal gwaith ymchwil i'w briff o ddewis, ond i ennill y marciau uwch, rhaid i'r gwaith gynnwys ymchwil ar wyddoniaeth y cynhwysion a'r dulliau i'w defnyddio. Dylai'r ymgeiswyr ddarparu crynodeb o'u hymchwil (i sicrhau glynu at y terfyn geiriau 2,000-2,500 gair) a dylid eu hannog i beidio â chopio a gludo gwybodaeth oddi ar y rhyngwrdd yn unig. Dylent allu dadansoddi'r ymchwil y maent wedi'i ganfod a'i ddefnyddio i ddod i gasgliadau a fydd yn eu helpu i ddewis y newidynnau ar gyfer eu harbrofion ymarferol. Roedd rhai o'r adrannau ymchwil a welwyd wedi'u harwain yn fawr gan athrawon ac mae'n ymddangos eu bod wedi'u cwblhau fel ymarfer dosbarth cyfan. Er bod hyn yn dderbyniol a gall rhai ymgeiswyr llai galluog elwa ohono, gallai rwystr rhai ymgeiswyr ystod ganol ac uwch. Rhaid darparu crynodeb unigol o'r hyn mae ymgeiswyr wedi'i ddysgu yn ystod eu gweithgareddau ymchwil. Mae defnyddio is-benawdau yn helpu'r ymgeisydd, yr athro a'r safonwr yn fawr.

Cwblhawyd cynlluniau gweithredu, ond yn yr un modd â'r gwaith ymchwil, mae'n ymddangos eu bod wedi'u cwblhau fel ymarfer grŵp ac felly roedd diffyg gwreiddioldeb. Darparwyd newidynnau yn y rhan fwyaf o'r gwaith a welwyd, ond methodd llawer o ymgeiswyr â rhoi esboniad pam yr oedden nhw'n defnyddio newidyn penodol. Disgwylir i ymgeiswyr gymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y maent wedi'u cael o'u gwaith ymchwil i'w galluogi i gyfiawnhau eu dewis o gynhwysion ar gyfer adran arbrofol yr asesiad.

O ran tasg yr wyau yn benodol, gallai ymgeiswyr fod wedi ymchwilio ffyrdd gwahanol o wneud meringues, nodweddion meringue wedi'i goginio a meringue heb ei goginio, beth sy'n digwydd i broteinau'r gwynwy pan gânt eu hystyn wrth eu chwsgio a sut caiff ewyn ei greu. Wrth ymchwilio i'r hyn sy'n effeithio ar sefydlogrwydd gwynwy wedi'i chwsgio, gallai'r wybodaeth ar gyfer yr ymchwil gynnwys y math o siwgr, ffresni'r wy a'r effaith y gall brasterau ac asidau ei chael ar y gymysgedd wedi'i chwsgio.

Ar gyfer y dasg crwst brau, roedd llawer o ymgeiswyr wedi ymchwilio i wahanol fathau o flawd, ond roedd rhai wedi cyfyngu hyn i flawd gwenith yn unig; roedd y gwaith mwyaf trylwyr yn cynnwys gwybodaeth am fathau eraill o flawd hefyd. Roedd opsiynau eraill ar gyfer gwaith ymchwil yn cynnwys disgrifio nodweddion crwst brau, gan esbonio sut mae blawd yn cael ei wneud ac edrych ar y wyddoniaeth tu ôl i'r crwst brau (dull rhwbio i mewn, breuo a ffurfio glwten). Roedd ambell i ffolder a welwyd yn cynnwys gwybodaeth am dulliau eraill o wneud crwst ac roedd rhai wedi ymchwilio i frasterau eraill y gellid eu defnyddio – mae'n bwysig nad yw ymgeiswyr yn gwyro oddi wrth y dasg gan y gall hyn arwain at ymchwilio mwy na sydd ei angen a gall arwain at ymchwilio'r briff yn rhy eang.

Darparwyd rhagfynegiadau yn y rhan fwyaf o ffolderi, ond nid pob un. Rhaid darparu rhagdybiaeth ar ddiwedd yr adran ymchwilio i helpu i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeiswyr o'u gwaith ymchwil ac i drafod a oedd eu rhagfynegiad yn gywir neu beidio yn eu hadran werthuso.

Ymarferol

Braf oedd gweld yr amrywiaeth o ymchwiliadau ymarferol gwahanol a oedd wedi'i cynnal. Mae'n ymddangos bod rhwng pedwar a chwech newidyn wedi'u cwblhau yn y mwyafrif o ffolderi a welwyd a byddai hyn yn galluogi'r ymgeiswyr i ennill digon o ganlyniadau gwahanol i'w galluogi i drafod eu canfyddiadau yn ddigon manwl. Gall llai na hyn gyfyngu ar yr hyn mae'r ymgeiswyr yn ei ddysgu o'r arbrofion a gall mwy olygu bod gormod ganddyn nhw i'w drafod. Roedd rhai canolfannau wedi caniatáu i ymgeiswyr gwblhau dwy sesiwn ymarferol wahanol ar gyfer eu harbrofion – mae hyn yn iawn, ond gallan nhw hefyd gwblhau eu holl waith arbrofol mewn un sesiwn.

Roedd tystiolaeth ffotograffig yn amrywio o ran ansawdd – y mwyaf sy'n cael ei gynnwys yn y ffolder, yr hawsaf y dylai fod i'r ymgeiswyr anodi a thrafod y prosesau a'r penderfyniadau y maent yn eu gwneud drwy gydol y sesiwn ymarferol.

Ar gyfer briff yr wyau, gallai'r gwaith arbrofol fod wedi edrych ar ganlyniadau gor-chwisgio'r gwynwy, yr effaith mae braster ac asidau gwahanol yn ei chael ar y sefydlogrwydd a'r syneresis posibl ar ôl cyfnodau amser gwahanol, cyfaint y cymysgedd ar ôl chwisgio, defnyddio siart gludedd i weld a yw'r cymysgedd yn lledaenu ac edrych ar sut oedd y meringues yn edrych ar ôl eu pobi.

Yng ngwaith arbrofol y crwst, gallai'r ymgeiswyr fod wedi edrych ar faint y disgiau crwst cyn ac ar ôl ei goginio i weld a oedd unrhyw grebachu neu ehangu, uchder y crwst cyn ac ar ôl eu coginio i weld a oedd wedi codi, wedi defnyddio siart Munsell i edrych ar liwiau amrywiol y crwst wedi'i bobi a gweld pa mor friwsionllyd oedd y crwst ar ôl ei bobi. Roedd rhai ymgeiswyr wedi gwneud cynhyrchion megis tartennau jam a phasteiod yn ystod eu sesiwn ymarferol – er bod y bwrdd yn deall y rhesymau dros wneud hyn, gall cynnwys llenwadau yn y samplau fod wedi effeithio ar ganlyniadau terfynol y crwst. Roedd rhai canolfannau wedi gwneud cynhyrchion crwst wedi'u llenwi, yn ogystal â choginio disgiau enghreifftiol o grwst i'w defnyddio ar gyfer eu canlyniadau – cymeradwyir hyn fel arfer da ar gyfer sut i ennyn brwdfrydedd rhai ymgeiswyr ar gyfer y gwaith ymarferol yn ogystal â chynhyrchu canlyniadau diriaethol y gellid eu profi'n deg.

Wrth drafod canlyniadau'r arbrawf ymarferol, roedd llawer o'r ffolderi a welwyd yn cynnwys sylwadau synhwyrdd ond yn amrywio o ran manylion. Gofynnodd rhai ymgeiswyr i'w cyfoedion drefnu'r canlyniadau yn ôl profi hoff ddewis, a chalonogol oedd hynny. Defnyddiwyd diagramau seren hefyd, ond dim ond cystal â'r allwedd a'r sylwadau sy'n cydfynd â nhw y mae'r rhain – cynhwyswyd llawer gormod ar eu pen eu hunain heb unrhyw esboniad.

Gwerthusiad

Roedd diffyg manylion yn yr adran werthuso yn gyffredinol. Roedd angen i lawer o ymgeiswyr lunio mwy o gasgliadau o'r canlyniadau a gasglwyd yn Adran B. Mae'r adran werthuso yn gofyn am ddadansoddi'r canlyniadau a rhoi esboniad o'r hyn maent yn ei olygu – ni ddylai'r adran werthuso fod yn ddisgrifiadol. I gyrraedd y band marciau uchaf, dylid cynnwys dealltwriaeth glir o'r hyn mae'r canlyniadau'n ei feddwl, a'r egwyddorion gwyddonol sydd ynghlwm, gan gysylltu'n ôl at yr hyn a ddarganfuwyd yn yr adran ymchwil, o bosibl. Ar gyfer tasg yr wy, gallai ymgeiswyr fod wedi trafod y rhesymau pam oedd hylif yn llifo o'r meringue neu pham oedd ychwanegu cynhwysyn asidig wedi rhoi mwy o sefydlogrwydd i'r meringue wedi'i chwisgio a'i bobi. Yn y dasg crwst, gallai ymgeiswyr fod wedi siarad am y canlyniadau terfynol â pha mor friwsionllyd oedd y crwst wedi'i bobi yn gysylltiedig â'r cynnwys glwten ym mhob blawd ac unrhyw amrywiadau posibl o ran blas a/neu wead yn dibynnu ar p'un a oedden nhw wedi defnyddio mathau gwahanol o flawd (e. Gram, Reis, Heb Glwten ac ati.). Pan ddefnyddiodd ymgeiswyr ddau neu dri newidyn yn unig, nid oedd digon o wybodaeth wedi'i chasglu o'u sesiwn ymarferol felly er mwyn trafod eu canfyddiadau yn ddigon manwl. Dylid adolygu'r rhagdybiaeth i weld a oedd y rhagfynegiad yn fanwl gywir neu beidio – os na ddarparwyd rhagdybiaeth yn Adran A, yna roedd hyn yn golygu na fyddai ymgeiswyr yn gallu cynnwys adolygiad o'u rhagfynegiad yn y gwerthusiad.

Asesiad 2 – yr opsiwn brecwast oedd y mwyaf poblogaidd ymhlith ymgeiswyr.

Cyflawni ymchwil ac ymchwiliadau

Dylai'r adran ymchwil ar gyfer y briff hwn gynnwys ymchwil cynradd ac eilaidd – nid yw ymchwil ar y rhyngwyd yn ddigonol i gael marciau o Fand 2 neu 3. I gyrraedd y band marciau uchaf hefyd, mae angen dangos treialon ymarferol sy'n dangos sgiliau lefel uchel neu ganolig, ynghyd â sylwebaeth werthusol. Nid yw treialu 3 saig yn unig o reidrwydd yn caniatáu mynediad at yr ystod uwch o farciau. Rhaid darparu tystiolaeth ffotograffig o'r treialon hefyd. Roedd yn amlwg bod rhai ymgeiswyr ond wedi dyblygu'r seigiau a wnaethpwyd ganddynt yn eu treialon yn y sesiwn ymarferol derfynol – ni fwriedir i'r treialon ymarferol fod yn ymarfer ar gyfer y sesiwn ymarferol derfynol, dylid eu defnyddio fel ymarfer 'dewis a gwrthod'.

Mae angen i gyfiawnhad dros ddewis o seigiau gyfeirio at y pwyntiau a grybwyllir yn y fanyleb – sut oedd yr ymchwil wedi helpu wrth ddewis y seigiau, addaswyd i'r dasg, sgiliau a dulliau coginio i'w defnyddio ac ymwybyddiaeth o gost, tarddiad, tymoroldeb a milltiroedd awyr o ran y cynhwysion i'w defnyddio. Nid oes gofyniad i siarad am y maetholion yn y seigiau – roedd llawer o ymgeiswyr wedi gwneud hyn ond nid oeddent yn gallu ennill marciau am y sylwadau hyn.

Mae angen i gynlluniau amser gynnwys tair adran glir – mise-en-place, coginio a gweini. Roedd yr adran mise-en-place yn tueddu i fod yn rhy fyr – dylai'r adran hon roi amser i ymgeiswyr gwblhau eu holl waith paratoi cyn coginio. Roedd gormod o adrannau mise-en-place yn cynnwys gwybodaeth am baratoi eich hun a chasglu offer a chynhwysion yn unig. Cwblhawyd yr adran goginio yn dda ar y cyfan a chynhwyswyd cyfarwyddiadau wedi'u cydweddu ar sut i wneud y seigiau. Roedd diffyg manylion yn yr adran weini gyda diffyg gwybodaeth yn rhoi manylion am dechnegau garnisio a phlatio, ynghyd â chwblhau golchi llestri. Dylai'r cynllun amser fod yn ddigon manwl i alluogi'r ymgeiswyr i gwblhau eu sesiwn ymarferol yn llwyddiannus ond hefyd i alluogi trydydd parti i ddyblygu'r seigiau. Nid yw datgan 'gwneud crwst' neu 'gwneud cwstard' yn unig yn ddigon manwl. Dylid hefyd cynnwys pwyntiau hylendid a diogelwch drwyddi draw – er y gallant ddod yn reddfodol i'r ymgeiswyr yn ystod eu gwaith ymarferol, mae'n caniatáu i'r safonwr weld bod ganddynt ddealltwriaeth o'r pwyntiau hylendid a diogelwch pwysig y mae angen glynu atynt wrth goginio.

Gellir darparu rhestri cynhwysion ar wahân neu gellir cynnwys pwysau drwy gydol y cynllun amser, ond dylent fod yn amlwg yn y gwaith i gyfiawnhau dyfarnu'r marciau uchaf.

Ymarferol

Rhagwelwyd y byddai dadansoddiad o'r marciau yn yr adran ymarferol yn galluogi athrawon i farcio'r adran hon yn fwy cywir, a dyma a ddigwyddodd ar gyfer y mwyafrif o'r is-adrannau. Dyfarnwyd rhai marciau hael yn yr adrannau paratoi, cynhyrchu a chyflwyno.

Yn yr adran paratoi, mae'n hanfodol cyfeirio at yr atodiad sgiliau yn y fanyleb wrth farcio'r gwaith, a rhaid ystyried anhawster, cymhwysedd ac ansawdd terfynol y sgiliau a ddangoswyd wrth ddyfarnu marciau. Tuedda'r marcio i fod yn hael pan oedd athrawon wedi dyfarnu marciau uchel yn seiliedig ar y nifer o sgiliau a ddangoswyd yn unig, ac nid y pwyntiau a grybwyllir uchod.

Mae ffotograffau lliw o ansawdd da yn ofynnol er mwyn safoni cyflwyniad y seigiau a wnaed a rhaid eu cynnwys yng ngwaith yr ymgeiswyr i gyd. I ennill y bandiau marciau uchaf, mae amrywiaeth o liwiau, garnisiau wedi'u gwneud yn fedrus a rheoli maint dognau'n gywir yn ofynnol. Dyfarnwyd marciau uchel i ormod o ymgeiswyr yn yr adran hon nad oedd modd eu cyfiawnhau wrth eu mesur yn erbyn y gosodiadau yn y cynllun marcio.

Sgiliau cylllell – dyfarnodd rhai ganolfannau farciau llawn am un sgil. Mae angen osgoi hyn yn y dyfodol.

Gwerthusiadau

Roedd is-benawdau yn amlwg yn helpu ymgeiswyr i gwblhau'r hyn sy'n ofynnol yn y fanyleb ar gyfer yr adran werthuso, ond roedd diffyg manylion yn amlwg i gyfiawnhau rhai o'r marciau a ddyfarnwyd. Sylwebaeth synhwyrdd sydd â'r nifer mwyaf o farciau ar gael ac felly'r adran hon ddylai fod yr un fwyaf manwl o'r gwerthusiad.

Mae'n ymddangos bod rhai canolfannau yn gofyn i ymgeiswyr gynhyrchu dadansoddiad maethol a chost yn eu gwerthusiadau – nid yw'r rhain yn ofynnol yn y fanyleb newydd ac nid oes marciau ar gael amdany'n nhw.

Sylwadau Cyffredinol

Mae'r adroddiadau a ysgrifennir gan safonwyr yn cael eu hysgrifennu'n ofalus ac mae llawer o feddwl yn eu gwaith ysgrifennu. Bwriedir iddynt ddarparu cefnogaeth ac arweiniad lle bo angen ac i ddarparu awgrymiadau am sut i wella gwaith ymgeiswyr o flwyddyn i flwyddyn. Y gobaith yw bod athrawon yn darllen yr adroddiadau ac yn ymateb i'r cyngor a roddir iddynt gan y safonwyr.

Mae'r ymroddiad gan ganolfannau ym mlwyddyn gyntaf y fanyleb TGAU newydd hon wedi bod yn braf iawn. Rwy'n sicr y dylai cyfleoedd DPP a deunydd enghreifftiol helpu athrawon ymhellach. Gwiriwch wefan CBAC yn rheolaidd ar gyfer deunyddiau cefnogi ac adnoddau newydd.

Cewch eich hatgoffa bod y briffiau'n newid yn flynyddol, a chyfrifoldeb y canolfannau yw sicrhau eu bod yn defnyddio'r briffiau 'byw' cywir. Mae'r briffiau yng Nghymru (CBAC) yn wahanol i'r rhai yn Lloegr (Eduqas).



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk